Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2023/2024

Trefniant Y cyngor

Clerc:
Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS

Ffôn: 01286 871757

E-bost: clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

Gwefan: https://cyngorllanddeiniolen.cymru

Cynghorwyr:

Clwt y Bont -	Dawn Parry
Dinorwig -	Ynyr Parri (Is Gadeirydd)
Deiniolen -	Parch Canon Idris Thomas, Emma Chappell, Elfed Wyn Williams Sedd Wag
Penisa'r-waun -	Phyllis Ellis, Elwyn Jones
Brynrefail -	Ellen George
Bethel -	Gareth Wyn Griffiths Jane Pierce (Cadeirydd) Sasha Williams Gareth Hughes
Rhiwlas -	Rhian Evans-Hill Lowri James

Is Bwyllgorau:
Llwybrau: Jane Pierce, Phyllis Ellis, Dawn Parry a Lowri James, Idris Thomas, Elen George, Ynyr Parri
Dros y Clerc: Gareth Wyn Griffiths, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill
Prosiect Mapiau: Phyllis Ellis, Sasha Williams, Emma Chappell
Byddwn yn ffurfio Is bwyllgorau eraill os bydd yr angen

Cynrychiolaeth:
Lywodraethwyr Ysgolion: Phyllis Ellis, Dawn Parry, Gareth Hughes
Parc Cenedlaethol: Rhian Evans Hill
Grŵp Ffocws Llechi: Parchg Idris Thomas
Un llais Arfon a Dwyfor: Unrhyw aelod yn rhydd i fynychu
Neuadd Rhiwlas: Lowri Ann James

Cynhelir Cyfarfodydd Cyngor yn Ysgol Penisa'r-waun ar nos Fawrth cyntaf o bob mis, ar wahân i fis Awst, lle nad oes cyfarfod, ac eithriad mis Ionawr, dibynnu ar ddyddiad. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r clerc.

Sedd Wag
Ar hyn o bryd mae yna sedd wag sydd angen ei llenwi yn Neiniolen. Os oes rhywun a diddordeb, neu angen mwy o wybodaeth, peidiwch oedi i gysylltu â'r clerc.

Gwybodaeth Ariannol
Praesept ariannol y Cyngor eleni oedd £31,000. Ar gyfartaledd mae hyn yn gost o tua £17.27 y tŷ i dai Band D. Eleni, mae'r Cyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn cadw'r praesept run fath ar £31,000. Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Awdit Cymru.
Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rhoddion:
Ar ddechrau'r flwyddyn, derbyniwyd rhodd ariannol gan wraig y diweddar John B Jones. Bu John yn gwasanaethu y Cyngor fel Clerc am sawl blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi prynnu mainc newydd er Côf amdano.
Yna ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma, derbyniodd y Cyngor rodd ariannol o ystad y diweddar Mr. Kenneth Harris, Clwt y Bont. Dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn ystyried beth fydd yn deilwng i wneud gyda hwn.
.

Gweithgareddau'r Cyngor
Prif ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yw Llwybrau, Cysgodfa'n Bws, rhoi barn ar geisiadau cynllunio'r ardal, a thynnu i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddiffygion, neu faterion sy'n rhwystr yn yr ardal. Eleni, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido Dau Glwb Ieuenctid yn yr ardal. 1 ym Methel a llall yn Neiniolen, ond yn anffodus, nid yw'r clwb yn Neiniolen wedi gallu parhau. Er bod y clwb yn llewyrchus dros ben, nid oedd yr arweinwyr yn gallu parhau i ymrwymo o'u hamser i'r clwb. Credir fod bwriad i geisio ei ail sefydlu, ynghyd a dechrau clwb yn Rhiwlas.

Llwybrau
Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor wedi neilltuo £30,000 o gyllid i wella cyflwr llwybrau'r fro. Mae rhywfaint o'r gwaith yma wedi ei gwblhau, ond mae'r gwaith yn parhau'r flwyddyn hon. Mae ambell lwybr wedi ei gyllido gan grantiau llywodraeth cymru hefyd. Felly, yn ystod y misoedd nesaf, bydd o bosib ambell i lwybr ar gau yn yr ardal tra bod y gwelliannau pellach yn mynd ymlaen wedi tymor y Gaeaf.
Rydym fel yr arfer yn torri'r llwybrau ddwywaith neu dair bellach yn ystod misoedd yr haf, ynghyd a pheintio a chynnal a chadw'r meinciau o gwmpas yr ardal.
Un peth sydd yn peri pryder i ni gyd ydi BAW CI. Mae'n amhosib i ni gadw ein pentrefi yn lân a thaclus tra mae perchnogion cŵn yn mynnu peidio codi baw eu ci. Mae yna finiau baw ci ym mhob ardal, ac erfyniwn arnoch i'w defnyddio os gwelwch yn dda.

Cysodfannau Bws
Yn dilyn gosod cysgodfa'n Bws ym Mrynrefail y llynedd, gosodwyd un ar ei Newydd wedd ym Methel eleni. Er bod y gysgodfa'n wedi gweld i banel wedi malu yn syth. Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi i osod cysgodfa'n o'r Newydd yng Nghae Glas, Rhiwlas yn ystod y flwyddyn.

Hysbysfwrdd
Yn dilyn damwain lle bu i gar ddifrodi'r hysbysfwrdd yn Rhiwlas, bu i'r Cyngor ei atgyweirio a gosod postia newydd arno. Prynwyd a gosodwyd hysbysfwrdd ym Mrynrefail hefyd.

Meinciau
Eleni gwelwyd sawl mainc o'r mileniwm yn cyrraedd diwedd eu hoes. Bu I'r Cyngor ail osod mainc yng Nghae Chwarae Clwt y Bont, Cae Chwarae Bethel ac ym Mro Rhiwen, Rhiwlas. Yn ychwanegol i hyn, mae'r Cyngor wedi prynu mainc er cof am John B Jones a fu yn gyn clerc i'w gosod yn Dinorwig.

Neuadd Rhiwlas
Er bod y Neuadd wedi ei chofrestru gyda'r Cofrestrau Tir EM, nid oedd cofnod fod y tir wedi ei gofrestr. Gan fod yr adeilad ei hun wedi ei gofrestru ac o dan ymddiriedolaeth y Cyngor Cymuned, roedd yn gwneud synnwyr i gofrestru'r tir hefyd. Bu I hyn ei gwblhau ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd hyn yn diogelu'r neuadd at bwrpas y pentref am hir oes. Dymuna'r Cyngor ddiolch i bwyllgor y neuadd am eu gwaith cynnal a chadw, ac am ddarganfod grantiau i adnewyddu'r system drydan a chegin ynghyd a'r gwelliannau eraill sydd wedi eu gwneud yno.

Map Enwogion y Plwyf
Lansiwyd map Newydd o Enwogion Plwyf Llanddeiniolen. Bu i rai o'r pwyllgor, ynghyd a Hefin Williams a gweithio gyda'r arbenigwr Gareth Roberts er mwyn cynllunio'r map yma. Map yw o rhai o enwogion mwyaf blaenllaw'r ardal - ac sydd yn hynod o ddiddorol. Mae posib dilyn a cherdded sawl llwybr i ddarganfod hanes mwy manwl.

Cynllunio
Yn wythnosol, rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio o Gyngor Gwynedd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisiadau hyn. Er bod cynghorwyr yn ymweld â'r safleoedd yma, i ryw raddau rydym yn ddibynnol arnoch chi fel trigolion i ddod a phryderon neu wrthwynebiadau a syniadau i ni. Cofiwch eich ardal chi ydy hi, os allwn helpu, cysylltwch gyda chynghorwyr eich pentref, neu anfonwch e-bost i sylw'r clerc.

Rhoddion
Yn flynyddol, mae'r Cyngor Cymuned yn rhannu rhoddion yn dilyn derbyn ceisiadau gan fudiadau o fewn y plwyf. Mae canllawiau a ffurflen gais i'w cael ar ein gwefan neu trwy gysylltu â'r clerc. Y cais ynghyd a mantolen ariannol i gyrraedd y clerc erbyn 20fed o Fedi yn flynyddol.
Eleni, cyfrannwyd rhoddion i:
Neuadd Bentref Rhiwlas,
Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun,
Clwb Bowlio Bethel,
Clwb Snwcer Bethel.
Clwb Snwcer Deiniolen,
Seindorf Arian Deiniolen,
Pêl Droed Ieuenctid Bethel,
Eisteddfod Bentref Bethel,
Clwb Crefft Rhiwlas,
Cyfeillion Rhiwlas,
Eisteddfod Undebol Penisa'r-waun,
Clwb Rhiwen,
Diffib Rhiwlas,
Pwyllgor Pentra Deiniolen,
Clwb Ti a Fi Bethel

Amcanion Y Cyngor am 2024/2025
Eleni, bydd Y Cyngor yn canolbwyntio ar gwblhau gwelliannau i'r Llwybrau cyhoeddus
Rydym yn bwriadu gosod Cysgodfa'n Bws o'r Newydd yn Rhiwlas.
Mae angen adnewyddu To Cysgodfa'n Bro Elidir, Dinorwig.
Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ail bontio'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Caban ym Mrynrefail. Mae lles y Caban yn dod i ben yn ystod y 4 blynedd nesaf, ac mae'r Caban yn debygol o fod angen Gwaith sylweddol i'r adeilad erbyn hyn. Er mwyn sicrhau dyfodol i'r adnodd pwysig yma yn yr ardal, mae trafodaethau cychwynnol wedi digwydd, a bu yn parhau yn ystod y flwyddyn rhwng y cyfarwyddwyr, Pwyllgor, a Chyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi Cofnodion pob cyfarfod ar ein gwefan a hefyd yn rhoi crynodeb o'r cofnodion yn Eco'r Wyddfa a Llais Ogwen yn fisol.
Estynnir croeso i unrhyw un sydd am fwy o fanylion i gysylltu â'r clerc, neu anfon neges os gallwn fod o gymorth i chi yn yr ardal.